Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## 9 Rhagfyr, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Blaengynllun Gwaith yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro) |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried y Blaengynllun Gwaith ar gyfer yr is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi'r Blaengynllun Gwaith.

2.2. Gall y Cadeirydd ddiwygio'r Cynllun er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau mewn amserlenni gwaith, yn amodol ar ddod â'r Cynllun i gyfarfod dilynol yr is-bwyllgor i'w gytuno.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Blaengynllun Gwaith yn nodi calendr o gyfarfodydd ar gyfer y cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2026, ac mae'n cyd-fynd â dyddiadau cyfarfodydd y CBC. Mae'r Blaengynllun Gwaith yn sicrhau bod yr is-bwyllgor yn cyflawni ei rôl fel y nodir yn Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Blaengynllun Gwaith yn nodi'r calendr o gyfarfodydd, ac yn ychwanegol yn amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud gan yr is-bwyllgor ymhellach i'w swyddogaethau deddfwriaethol. Gan fod yr is-bwyllgor wedi'i gynnull bellach, mae'n fater i Aelodau drwy eu Cadeirydd i adnabod pa adroddiadau yr hoffent eu gweld gerbron yr is-bwyllgor yn y dyfodol. Gofynnir i'r Aelodau ystyried a oes unrhyw adroddiadau ychwanegol y dylid eu dwyn i'w sylw, ynghyd ag unrhyw ofynion hyfforddi sydd eu hangen ar yr Aelodau. Bydd unrhyw adroddiadau ychwanegol y gofynnir amdanynt yn cael eu hychwanegu at Flaenraglen Waith fanwl fel y cytunir gyda'r Cadeirydd.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

Blaengynllun Gwaith yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: Rhagfyr 2025 – Mawrth 2026

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae proses ddemocrataidd yr is-bwyllgor yn cael ei hystyried yn briodol drwy raglen waith y cytunwyd arni, sydd wedi'i nodi yn y Blaengynllun Gwaith hwn.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.